# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# PRIODAS:
# TAIR STORI O FRO AFAN

**Stori 1.**

Roedd aelod o deulu’r Turberville wedi martsio i Gastell Coety er mwyn ymosod arno; cafodd ei gyfarfod gan arglwydd Cymreig y castell, yn dal cleddyf mewn un llaw a’i ferch yn y llall.

`Mae gennych ddewis’ dywedodd. `Priodwch fy merch neu ymladdwch â mi’.

Dewisodd y marchog briodi’r ferch ac etifeddu’r castell.

Mae cofnod yn bodoli o briodas Turberville/Afan rhwng Gilbert Turberville a Matilda, ferch Morgan Gam.

**Stori 2**

Mae ‘na stori am farchog Normanaidd a oedd am gipio merch arglwydd Cymreig lleol, nid o anghenraid i’w phriodi a, phan gafodd ei wrthod, ymosododd ar Ben y Castell, sef ei chartref. Lladdodd ei thad a’i ddynion.

Boddodd Gwenllian, y ferch, ei hun yn Afon Afan, lle mae dal pwll a elwir Pwll Gwenllian. Dywedir bod ei hysbryd yn dal i gerdded y castell.

**Stori 3.**

Roedd tad y Tywysog Ioan wedi dyweddïo’i fab  i Hawise, merch Gwilym o Gaerloyw, Arglwydd Morgannwg, pan roedd y ddau dal yn blant. Ymhen amser roedd y ddau wedi priodi.

Parodd y briodas deg mlynedd. Ond pan ddaeth Ioan yn frenin diddymwyd y briodas. Nid oedd ganddynt blant, a dywedir yn gyffredinol bod hon yn briodas o gyfleustra yn unig. Roedd y ddau ohonynt wedi ail-briodi yn ddiweddarach.

*Tair stori a gynigwyd gan Sally Roberts Jones.*